# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandderfel

## Nos Fawrth, Mai 5ed 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Bro Derfel.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Rita Jones, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwenda Evans Dewi Pritchard a Iolo V. Evans

i) Croesawu'r cynghorwyr.

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd – **gan nad oedd Gwenda Evans yn gallu bod yn bresennol cytunodd Alwyn Jones i gadeirio'r cyfarfod. Cytunwyd i ofyn i Gary Thomas fod yn is-gadeirydd.**

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau -
**Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-**

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Rita Jones
Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn – Bethan Thomas a Rita Jones
Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.
Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor - **cymeradwywyd.**

v) Cyfrifon 2025-26 - **cymeradwywyd**

vi) Ffurflen Archwiliad Blynyddol y Cyngor – **roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.**

vii) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd – **yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi'r ffioedd ar gyfer 2026-27.**

viii) Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2026/27 - **cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.**

ix) Adolygu Asedau **– adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cadarnhaodd y cynghorwyr fod yr asedau wedi cael ei archwilio ac mewn cyflwr da. Cytunwyd fod y gwerthoedd ar y polisi yswiriant yn ddigonol.**

x) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor - a**dolygwyd a chafwyd yn gywir.**